

Pecyn Cymorth Mynediad at Wleidyddiaeth


Cam 4. Dod yn ymgeisydd i'ch plaid



Am y llyfryn yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Pecyn Cymorth Mynediad i Wleidyddiaeth – Cam 4. Ceisio cael ei dewis.**



Mae'r rhan yma o'r pecyn cymorth am:

- Beth ydy dewis a beth sy'n digwydd.
- Sut i baratoi ar gyfer hynny.
- Gofyn am addasiadau rhesymol.
- Gofalu amdanoch chi'ch hun.



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Dewis	4
Paratoi eich hun	8
Gofyn am addasiadau rhesymol	12
Rhoi eich hun ymlaen: Beth sydd angen i chi ei wneud	15
Digwyddiadau dewis.....	19
Gofalu amdanoch chi'ch hun yn ystod y dewis	23
Os nad ydych chi wedi eich dewis i fod yn ymgeisydd.....	26
Os ydych chi wedi eich dewis fel yr ymgeisydd.....	27
Mwy o wybodaeth	29

Dewis



I fod yn **ymgeisydd** i'ch plaid wleidyddol, mae angen i chi gyflwyno eich hun I gael eich **dewis**.



Mae **ymgeisydd** yn cynrychioli eich plaid yn eich ardal leol.



Mae **ymgeiswyr** yn sefyll ar gyfer etholiad - pan fydd pobl yn pleidleisio dros ymgeisydd i gynrychioli eu hardal.



Mae **dewis** yn digwydd y tu mewn i'r blaid. Mae aelodau'n dewis pwy maen nhw eisiau i'w ymgeisydd fod.

Mae dewisiadau yn penderfynu:



- Ydy eich plaid yn eich dewis chi fel ymgeisydd.



- Ydych chi'n sefyll mewn ward, adran, neu **etholaeth benodol** – ardal bleidleisio.



- Lle rydych chi'n cael eich rhoi ar restr o ymgeiswyr.



- Pa mor bell rydych chi'n mynd mewn gwleidyddiaeth.



Mae dewis yn digwydd mewn gwahanol ffyrdd.

Fe fydd rhaid i chi weithio trwy:



- Gwaith papur newydd.



- Cyfarfodydd mawr gyda llawer o eiriau jargon.



Efallai nad ydy hi'n glir beth sydd angen i chi ei wneud. Fe fydd yn cymryd llawer o egni a gwaith.



Efallai na fyddwch chi bob amser yn cael y gefnogaeth a'r newidiadau rydych chi eu hangen.



Nod yr adran yma ydy gwneud dewis yn gliriach ac yn haws i'w wneud.

Paratoi eich hun



Cyn i chi roi eich hun ymlaen i gael eich dewis,
Cymerwch amser i baratoi eich hun.

Deall pam rydych chi eisiau sefyll

**Fe fydd hyn yn eich helpu trwy amser anodd.
Gofynnwch i chi'ch hun:**



- Pa newid ydw i eisiau ei wneud?



- Pa lefel o gyfrifoldeb rydw I'n gallu ei drin?



- Pa fath o ymgyrch ydw I'n gallu ei rhedeg?



- Sut fyddai hyn yn ffitio o gwmpas fy mywyd a'm hiechyd?



Fe fydd yn helpu i siarad â phobl sydd wedi gwneud hynny o'r blaen.

Dechrau gwneud eich hun yn adnabyddus



Mae pobl yn fwy tebygol o bleidleisio dros bobl maen nhw'n eu hadnabod ac yn ymddiried ynddyn nhw. Rydych chi'n gallu:



- Mynd i gyfarfodydd pwysig – ymunwch ar-lein os oes angen.



- E-bostio swyddogion am faterion rydych chi'n poeni amdanyn nhw.



- Cyflwyno eich hun mewn 1 neu 2 ddigwyddiad.



- Rhannu syniadau yn ysgrifenedig os ydy siarad yn anodd.



- Defnyddio pethau fel grwpiau Facebook neu LinkedIn.



- Gweithio ar 1 mater lleol bach a rhannu diweddariadau.

Gofyn am addasiadau rhesymol



Mae gennych chi hawl i **addasiadau rhesymol** ar bob cam.



Mae'r rhain yn newidiadau sydd yn gallu cael eu gwneud er mwyn i chi allu cymryd rhan yn llawn.

Ar gyfer dewis, rydych chi'n gallu gofyn am bethau fel:



- Mwy o amser i siarad.



- Egluro'r rheolau yn glir.



- Gwahanol fathau o ddigwyddiadau i bobl ddod i'ch adnabod chi.



- Anfon eich datganiad – beth rydych chi'n sefyll amdano, mewn fideo neu ysgrifennu.



- Help i lenwi ffurflenni.



- Dogfennau mewn gwahanol fformatau, fel Hawdd ei Ddeall neu Print Bras.




- Dyddiad cau gwahanol os ydy gwaith papur yn anoddach i chi.



- Dydy llawer o bleidiau ddim yn gwybod am anghenion cymorth pobl anabl.



Rydych ci'n gallu gwella pethau i bawb trwy ofyn.



Rydych chi'n gallu defnyddio'r **Ffurflen Datblygiad Personol** yn y pecyn cymorth yma i'ch helpu i siarad am eich anghenion.

Rhoi eich hun ymlaen: Beth sydd angen i chi ei wneud



Mae pob plaid yn wahanol, ond dyma'r pethau mae'n rhaid i chi eu gwneud fel arfer.

Edrych i weld os ydych chi'n gallu ceisio cael eich dewis

Yn dibynnu ar eich plaid, efallai y bydd angen i chi:



- Wedi bod yn aelod am gyfnod penodol o amser.



- Byw yn yr ardal leol.



- Talu eich ffioedd aelodaeth.



- Heb dorri unrhyw reolau neu ymddwyn yn y ffordd anghywir.

Llenwi ffurflenni



Mae llenwi ffurfiau yn gallu bod yn anodd ac yn flinedig. Rydych chi'n gallu gofyn am help. Dydy hyn ddim yn dwyllo!



Efallai y bydd ffurflenni yn gofyn am:

- Manylion personol.
- Profiad.
- Pam rydych chi eisiau sefyll.
- Sgiliau a gwerthoedd.
- Gwybodaeth am gydraddoldeb neu amrywiaeth – fel eich oedran ac o ble rydych chi'n dod.



Ysgrifennu datganiad personol



Ysgrifennwch ddatganiad gonest a chlr am:

- Eich gwerthoedd.
- Materion lleol rydych chi'n poeni amdanynt.
- Eich profiad fel person anabl.
- Sut fyddwch chi'n cynrychioli pawb yn deg.
- Pam rydych chi eisiau bod yn ymgeisydd.

Digwyddiadau dewis

Efallai bydd angen I chi



- Mynd i hystingau – cyfarfodydd lle mae cwestiynau yn cael eu gofyn i chi



- Ateb cwestiynau aelodau



- Rhoi areithiau byr



- Cyfarfod swyddogion lleol.

Rydych chi'n gallu gofyn am:



- Amser ychwanegol i siarad.



- Cymryd rhan ar-lein yn lle yn bersonol.



- Cwestiynau cyn y digwyddiad, i helpu i baratoi sut fyddwch chi'n eu hateb.



- Rhoi atebion ysgrifenedig yn lle siarad eich atebion.



- Gofodau tawel.



- Newidiadau i oleuadau a sain.



- Rhywun i'ch cefnogi a gwneud y newidiadau rydych chi eu hangen i gymryd rhan.

Fe fydd aelodau'n pleidleisio dros y person maen nhw ei eisiau fel ymgeisydd. Maen nhw'n gallu pleidleisio:



- Yn bersonol.



- Ar bapur.



- Ar-lein.



- Trwy'r post.



Rydych chi'n gallu gofyn am newidiadau os ydy unrhyw un o'r rhain yn anodd i chi.

Gofalu amdanoch chi'ch hun yn ystod y dewis



Yn ystod y dewis, fe fydd rhaid i chi ddelio â:

- Mwy o gyfarfodydd.
- Mwy o waith papur.
- Mwy o bwysau.
- Mae mwy o bobl yn edrych arnoch chi ac yn gwybod pwy ydych chi.
- Mwy o straen.



Cofiwch osod rheolau i chi'ch hun. Fel dim ond mynd i'r cyfarfodydd pwysicaf a chael diwrnodau gorffwys.



Dydy hyn ddim yn wendid. Mae'n ffordd o wneud yn siŵr eich bod yn gallu parhau i wneud y gwaith sydd angen i chi ei wneud.

Diogelu eich hun



- Ysgrifennwch unrhyw broblemau sydd gennych chi, gan gynnwys y dyddiad a beth wnaeth ddigwydd.



- Gofynnwch am gefnogaeth gan fentor.



- Defnyddiwch y swyddogion anabledd neu gydraddoldeb – eu gwaith nhw ydy gwneud yn siŵr eich bod yn gallu cymryd rhan.



- Gofynnwch am addasiadau rhesymol yn ysgrifenedig – felly mae prawf rydych chi wedi gofyn.



- Cofiwch ei bod yn bwysig eich bod chi'n cymryd rhan. Rydych chi'n perthyn. Mae newidiadau i bobl anabl yn dda i bawb.

Os nad ydych chi wedi eich dewis i fod yn ymgeisydd



Mae llawer o aelodau rhagorol yn colli'r tro cyntaf.



Dydy hyn ddim yn meddwl nad ydych chi'n ddigon da.



Rydych chi'n gallu ceisio eto pan fydd gennych chi fwy o brofiad a mwy o gefnogaeth.

Os ydych chi wedi eich dewis fel yr ymgeisydd



Llongyfarchiadau!




Rydych chi nawr yn gallu cael help gan y **Gronfa Mynediad at Swyddi Etholedig (Cymru)**. Mae hwn yn arian sy'n cefnogi pobl anabl mewn gwleidyddiaeth.



Rydych chi'n gallu dechrau cynllunio eich **ymgyrch**. Mae hyn yn meddwl cynllunio ffyrdd o rannu eich prif nodau a beth rydych chi'n sefyll amdano.



Fe fydd gennych chi ddyletswyddau newydd.



Fe fydd Cam 5 o'r pecyn cymorth yma yn eich arwain trwy fod yn ymgeisydd a rhedeg ymgyrch.

Mwy o wybodaeth



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Kat Watkins**, Swyddog Prosiect Mynediad at Wleidyddiaeth:



Gwefan:

disabilitywales.org/projects/access-to-politics/cy



E-bost:

kat.watkins@disabilitywales.org



Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. [Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.](#)